Ysgol Pentreuchaf

47. Polisi Cyswllt â'r Gymuned

Nod

Cael yr ysgol i ymdoddi yn rhan annatod o'r gymuned, gan gofio fod y naill yn ddibynnol a y llall.

Amcanion

1. Gwneud pob plentyn yn ymwybodol o'r gymuned a bod ganddynt gyfraniad i'w wneud i'r gymdeithas leol ac ehangach.
2. Sicrhau bod y disgyblion yn meithrin parch tuag at eu cymdeithas
2. Defnyddio'r gymuned fel ffynhonnell addysgol, yn ei amrywiol agweddau.
3. Defnyddio adnoddau'r ysgol i ddiwallu anghenion y gymuned.
4. Datblygu dealltwriaeth o'r modd y mae'r gymuned yn ymdrin a'i hamrywiol broblemau.
5. Cynnal traddodiadau diwylliannol a chelfyddydol yr ardal.

Canllawiau

1. Cofio am y profiadau a gynigir yn uniongyrchol e.e. yr Heddlu, gweithgareddau hanesyddol, daearyddol a.y.b. Byddwn yn cynllunio gweithgareddau ac agweddau o'r cwricwlwm sy'n seiliedig ar yr ardal leol.
2. Datblygu cyfathrach rhwng unigolion a'i gilydd yn ddyddiol.
3. Datblygu perthynas dda rhwng yr ysgol a mudiadau lleol e.e. y capel, yr eglwys a.y.b. Cynnal gwasanaethau neu gyngherddau yn y capel, eglwys, Neuadd Dwyfor yn rheolaidd a gwahodd y gymuned yno fel cynulleidfa.
4. Byddwn yn gwahodd y gymuned i holl weithgareddau'r ysgol e.e. Cyngerdd Nadolig, Ffair Haf/Nadolig,
6. Gwahoddir siaradwyr lleol, artistiaid ac awduron preswyl i'r dosbarth.
7. Creu cyswllt a chyd-weithio gydag ysgolion eraill yn yr ardal leol e.e. drwy weithgareddau chwaraeon, ymweliadau, gweithgareddau Siarter Iaith, HMS i athrawon, Cymunedau Dysgu Proffesiynol a chydweithio 'Ysgol i Ysgol'. a.y.b.

Casgliad

Mae meithrin perthynas dda rhwng yr ysgol (yn blant a staff) a'r gymuned gyfan yn werthfawr i bob aelod o'r gymuned.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd:_____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad:_____